Cynorthwyydd Polisi a Materion Cyhoeddus

Gwybodaeth Allweddol

Adrodd i:	Cyfarwyddwr Polisi a Materion Cyhoeddus
Math o Gontract:	Llawn amser, parhaol (Ystyrir rhannu swydd)
Cyflog:	£19,467 - £21,154, codiad cyflog yn yr arfaeth, pro rata
Lleoliad:	Cyfuniad o swyddfa (Caerdydd) a gweithio gartref
Dyddiad Cau:	Dydd Llun 11 Hydref 2021

Trosolwg o'r Rôl

Rydym yn chwilio am unigolyn brwdfrydig i ymgymryd â rôl bolisi a materion cyhoeddus cyffrous yn y sector addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith.

Gan weithio'n agos gyda chydweithwyr yn y Tîm Cyfathrebu, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn helpu i hyrwyddo budd addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru. Byddant yn cynrychioli colegau addysg bellach ar lwyfan cenedlaethol, gan weithio'n agos gydag aelodau seneddol yn y Senedd a gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyfarfod a briffio llefarwyr pleidiau gwleidyddol perthnasol ac aelodau Pwyllgorau Senedd allweddol, yn ogystal ag ymgymryd ag ymchwil, dadansoddi (ansoddol a meintiol), ac i helpu i ddatblygu argymhellion polisi cyhoeddus. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gallu gweithio ar ei liwt ei hun yn ogystal â fel rhan o dîm, a bydd ganddo sgiliau cyfathrebu rhagorol a'r gallu i ffurfio perthnasoedd gwaith cadarnhaol.
Ar hyn o bryd mae hwn yn gyfle gweithio gartref yn bennaf ond bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus weithio'n rheolaidd o swyddfeydd ColegauCymru yng Nghaerdydd, felly mae'r gallu i gymudo yma yn hanfodol ar gyfer y dyfodol. Efallai y bydd angen parodrwydd i deithio ledled Cymru, yn y DU ac yn rhyngwladol weithiau, a gweithio y tu allan i oriau gwaith arferol.

Prif Ddyletswyddau

- Monitro diweddariadau seneddol a ddarperir gan gontractwyr allanol i nodi blaenoriaethau ar gyfer gweithgareddau materion cyhoeddus.
- Hyrwyddo ac amlygu ColegauCymru a gwaith y sector addysg bellach yn gadarnhaol, gan gynnwys dysgu seiliedig ar waith, i wleidyddion a'u staff ar draws pob plaid a chyda phartneriaid allanol eraill yn y llywodraeth, busnes, y byd academaidd a'r trydydd sector.
- Cefnogi drafftio ymatebion ymgynghoriadau ar gyfer dogfennau polisi.
- Cynnal ymchwil a dadansoddiadau ansoddol a meintiol - gan gynnwys arolygon a gwerthuso - i lywio ystod o gynnwys polisi, prosiect ac ymgyrch ac mewn ymateb i geisiadau gan y sector.

- Helpu i ddatblygu negeseuon, gan gynnwys ymatebion i gyhoeddiadau gwleidyddol yng Nghymru, gan gynghori ar bolisi a safbwyntiau gwleidyddol allweddol.
- Cefnogi'r Swyddog Polisi i redeg Grŵp Trawsbleidiol ColegauCymru ar addysg bellach a Sgiliau'r Dyfodol, gan gynnwys rhannu gwybodaeth, cyn ac ar ôl digwyddiadau.
- Helpu i drefnu digwyddiadau perthnasol i gefnogi polisi ColegauCymru a gwaith materion cyhoeddus.
- Cynnal system gofnodion llawn gynhwysfawr ar gyfer holl ymgysylltiad AS, gan gynnwys cyfarfodydd, digwyddiadau a dadleuon.
- Sicrhau systemau gweinyddu effeithiol i gofnodi a storio ymatebion ymgynghori a gohebiaeth arall.
- Cynrychioli ColegauCymru mewn cyfarfodydd, cynadleddau a digwyddiadau yn ôl yr angen.
- Cynnal diddordeb mewn datblygiadau ym mholisi cyhoeddus a meysydd gwleidyddol a'r sector addysg yn ehangach.
- Gweithio i gyllidebau y cytunwyd arnynt gyda chyflenwyr cymeradwy.
- Unrhyw dasgau cysylltiedig eraill yn unol â chyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Polisi a Materion Cyhoeddus.

Gofynion Iaith Gymraeg

Mae ColegauCymru yn sefydliad dwyieithog balch ac mae sgiliau Cymraeg yn cael eu hystyried yn gaffaeliad i'r sefydliad. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd datblygu a thyfu gweithlu dwyieithog ac yn annog a chefnogi staff i ddysgu, datblygu a defnyddio eu sgiliau iaith Cymraeg yn y gweithle.

Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol ar gyfer y rôl hon. Anogir ymgeiswyr nad oes ganddynt sgiliau Iaith Gymraeg neu nad yw eu sgiliau ar hyn o bryd yn cwrdd â'r lefel a ddymunir ond sy'n gallu dangos ymrwymiad i wella lefel eu cymhwysedd. Mae croeso i ymgeiswyr gysylltu â ColegauCymru i drafod y gofyniad hwn.

Manyleb Person

Meini Prawf Hanfodol
Gwybodaeth am system wleidyddol Cymru.
Yn gymwys i lefel gradd.
Profiad o weithio ym maes polisi, materion cyhoeddus neu'r system wleidyddol yng Nghymru (cyflogedig neu wirfoddol).
Profiad o gynnal ymchwil, dadansoddi data ac ystadegau a chyflwyno canfyddiadau.
Profiad o ysgrifennu ffurfiol e.e. ymatebion ac adroddiadau ymgynghori.
Profiad o adeiladu perthnasoedd gwaith cadarnhaol ar draws ystod o randdeiliaid mewnol ac allanol.

Safon ragorol o Saesneg ysgrifenedig gan gynnwys y gallu i ysgrifennu mewn gwahanol arddulliau i weddu i wahanol gynulleidfaoedd.
Sgiliau trefnu rhagorol gan gynnwys y gallu i flaenoriaethu'n effeithiol, gweithio o fewn amserlenni tynn ac yn unol â'r adnoddau sydd ar gael.
Y gallu i weithio ar eich pen eich hun ac fel rhan o dîm.
Y gallu i ddefnyddio Pecynnau Microsoft Office a chyfryngau cymdeithasol.
Meini Prawf Dymunol
Gwybodaeth a dealltwriaeth o bolisi addysg ôl-16, gan gynnwys dysgu seiliedig ar waith, yng Nghymru.
Sgiliau iaith Cymraeg.

Y Broses Ymgeisio

Anfonwch CV sy'n dangos sut rydych chi'n cwrdd â'r Fanyleb Person, ynghyd â llythyr eglurhaol byr sy'n mynd i'r afael â'r cwestiynau isod. Ni ddylai'r ateb i bob un cwestiwn fod yn fwy na 200 gair.

1. Beth ydych chi'n meddwl yw'r prif faterion polisi sy'n wynebu'r sectorau addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith yn benodol yn ystod y 12-18 mis nesaf?
2. Sut ydych chi'n meddwl y dylai ColegauCymru geisio mynd i'r afael â'r materion hyn?
3. Beth yw'r prif gyfleoedd a rhwystrau?

Dylid cyflwyno ceisiadau trwy e-bost i HR@colegaucymru.ac.uk

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Gofynnwn ichi lenwi ein Ffurflen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth pan fyddwch yn gwneud cais. Mae hyn yn wirfoddol, ac yn anhysbys, ond mae'n ein helpu i sicrhau ein bod yn gynhwysol yn ein recriwtio.

Dyddiad Cau

Y dyddiad cau ar gyfer y swydd hon yw **Dydd Llun 11 Hydref 2021 am 12.00pm.**

Cyfweliadau

Cynhelir cyfweliadau wythnos yn dechrau 18 Hydref 2021, wyneb i wyneb os yn bosibl, ond fel arall trwy MS Teams.

Gwiriad Datgelu DBS

Sylwch y gall yr ymgeisydd llwyddiannus fod yn destun gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).